

Cyfres Crefyddau'r Byd Heddiw

Archwilio
Sikhiaeth

Tania ap Siôn

Darluniwyd gan

Phillip Vernon



Cyfres Crefyddau'r Byd Heddiw

Archwilio Sikhiaeth

Tania ap Siôn

Darluniwyd gan Phillip Vernon



Bear Lands Publishing

Yn y Gyfres Crefyddau'r Byd Heddiw, mae Rhys a Sara'n dysgu am brif grefyddau'r byd yn eu gwlad eu hunain. Y saith stori yn y gyfres yw:

- Archwilio Islam
- Archwilio Iddewiaeth
- Archwilio'r Eglwys y Plwyf
- Archwilio'r Eglwys Uniongred
 - Archwilio Hindŵaeth
 - Archwilio Bwdhaeth
 - Archwilio Sikhiaeth



Cyhoeddwyd gyntaf 2008 gan y Ganolfan Genedlaethol
Addysg Grefyddol,
Prifysgol Bangor
(noddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru).

Ail argraffiad (ar-lein) 2019 gan
Bear Lands Publishing,
Canolfan y Santes Fair,
Llys Onnen, Abergwyngregyn,
Gwynedd, LL33 0LD, Cymru.

Cyfres Crefyddau'r Byd Heddiw
Archwilio Sikhiaeth

Pwy yw eich ffrindiau? Ydych chi'n gwybod popeth amdanyn nhw? Ydyn nhw'n gwybod popeth amdanoch chi?

Stori yw hon am ffrindiau sydd ddim yn gwybod popeth am ei gilydd. Ond maen nhw'n dechrau dysgu am rai pethau mae eu ffrindiau'n eu gwneud, a pham maen nhw'n eu gwneud. Darllenwch eu stori ac efallai y dysgwch chi rywbeth newydd hefyd!





I Ymweld â gurdwara

Dechrau gwyliau'r Pasg oedd hi, ac roedd Rhys a Sara wedi deffro'n gynnar. Roedden nhw'n aros yn y ddinas gyda'u hoff fodryb am bum diwrnod. Ac roedd cymaint i'w wneud. Amser brecwast, roedd Rhys a Sara yn llawn cyffro'n sôn am yr alwad ffôn gawson nhw'r noson cynt. Roedd ffrind Anti Hafwen wedi ffonio i ofyn fyddai Rhys a Sara yn hoffi treulio ychydig o amser gyda'i phlant hi, Sanjit a Yasmin.

Roedd Rhys a Sara wedi cwrdd â Sanjit a Yasmin o'r blaen, yr haf cynt ym mharti pen-blwydd 40 oed eu modryb. Fe gawson nhw bnawn ardderchog yn chwarae gemau yn yr ardd.

Daeth Anti Hafwen i mewn yn ei gŵn nos gan ddweud rhywbeth am godi'n fore iawn.

'Rydyn ni'n gwneud ein hunain yn barod i fynd i gwrdd â Sanjit a Yasmin,' eglurodd Sara yn rhesymol. 'Rydyn ni wedi dod o hyd i gurdwara'r Sikhiaid ar y map. Fe ddywedodd mam Sanjit a Yasmin neithiwr fod eisiau i mi gael benthgysgarff gennyh chi, Anti Hafwen.'

'Ac fe wisgaf innau fy nghap glas newydd,' meddai Rhys yn feddylgar.



Ymhen dwy awr hir, roedden nhw ar eu ffordd i gwrdd â Sanjit a Yasmin. ‘Dyna’r lle!’ gwaeddodd Sara. Roedd yn hawdd adnabod y gurdwara gan fod baner oren a glas yn chwifio y tu allan. Roedd Sanjit a Yasmin yn disgwyl amdanyn nhw.

‘Croeso i’n gurdwara!’ meddai Sanjit gan wenu’n braf. ‘Mae hwn yn lle arbennig iawn i’n teulu ni ac i deuluoedd Sikh eraill yn yr ardal. Rydyn ni’n dod yma i addoli Duw gyda’n gilydd. Ein henw ni ar Dduw yw Waheguru, ystyr hynny yw Arglwydd Rhyfeddol.’

‘Tŷ’r guru yw gurdwara,’ ychwanegodd Yasmin. ‘Y guru yw ein hathro a’n harweinydd. Mae’r guru’n ein dysgu am Waheguru, ac yn dangos i ni sut mae Waheguru eisiau i ni fyw. Dewch i mewn i gwrdd â’n Guru!’



Roedd y cyntedd yn lle prysur, gyda gwahanol liwiau, arogleuon, lleisiau, a phobl. Tynnodd y pedwar plentyn eu hesgidiau a'u rhoi ar y rhesel esgidiau wrth y drws. 'Nawr, rhaid i ni olchi'n dwylo a gorchuddio'n pennau,' meddai Yasmin. 'Wedyn, fe fyddwn ni'n barod i weld y Guru.'

Roedd Rhys a Sara yn teimlo'n gynhyrfus. Rhaid fod y Guru'n arbennig iawn os yw'n cael tŷ fel hwn. Rhoddodd Rhys ei gap glas newydd am ei ben a gwisgodd Sara sgarff goch orau ei modryb.

Aeth Sanjit a Yasmin â nhw i neuadd weddi fawr. Yn y neuadd weddi roedd pobl yn eistedd ar y llawr. Roedd y merched i gyd yn eistedd un ochr a'r dynion a'r bechgyn yn eistedd yr ochr arall.




Sylwodd Rhys a Sara fod pobl yn hoelio'u sylw ar llwyfan o'u blaenau. Ar y llwyfan roedd llyfr mawr yn gorffwys ar glustogau ac roedd canopi uwch ei ben. Roedd dyn yn darllen yn uchel o'r llyfr yn yr iaith Bwnjabeg.

Aeth Sanjit a Yasmin at y llwyfan ac ymgrymu'n isel. Fe wnaethon nhw roi afalau yn myl rhoddion eraill o fwyd ac arian.

'Ble mae eich Guru?' sibrydodd Sara, gan edrych o'i chwmpas. 'Ai'r dyn yna yw e, sy'n darllen o'r llyfr ar y llwyfan?'

'Na,' chwarddodd Yasmin. 'Y llyfr ar y llwyfan yw ein Guru. Y llyfr yna yw ein Guru Granth Sahib. Y llyfr yw ein hathro a'n harweinydd. Rydw i'n cael gwersi Pwnjabeg yn y gurdwara am fy mod i eisiau deall yn well beth mae'r llyfr yn ei ddweud.'



Dechreuodd cerddorion chwarae drymiau sy'n cael eu galw'n tabla, a'r harmoniwym sy'n cael ei galw'n baja. Roedden nhw'n annog pawb o'u cwmpas i ganu.

'Mae canu emynau yn un ffordd sydd gennym ni o addoli Waheguru. Rydyn ni'n galw hyn yn kirtan,' eglurodd Sanjit wrth Rhys. 'Mae nifer o'r emynau yn dod o'r Guru Granth Sahib.'

Ar ddiwedd y gwasanaeth roedd bwyd melys o'r enw karah prashad yn cael ei rannu.

'Rydyn ni'n credu fod pawb yn gydradd. Does neb yn well nag unrhyw un arall,' meddai Sanjit. 'Dyna pam rydyn ni'n rhannu'r karah prashad ac yn eistedd gyda'n gilydd ar y llawr.'

Amser swper, dywedodd Rhys a Sara hanes y gurdwara wrth Anti Hafwen. Mae Sanjit a Yasmin yn mynd i'r gurdwara i addoli Waheguru, sef Duw. Gurdwara yw cartref y llyfr o'r enw Guru Granth Sahib. Mae'r Guru Granth Sahib yn addysgu Sanjit a Yasmin am Waheguru ac am y ffordd y mae Waheguru eisiau iddyn nhw fyw.





2 Dathlu Baisakhi

Roedd Rhys a Sara yn eistedd yn ymyl eu ffrindiau, Sanjit a Yasmin. Roedd nain Sanjit a Yasmin wedi addo darllen stori Sikh i'r plant.

'Gwrandewch yn ofalus,' meddai Sunita Kaur wrthyn nhw. 'Fe fydd y stori yma'n eich helpu i ddeall y seremoni rydych chi'n mynd i'w gweld.'

Diwrnod Baisakhi oedd hi, yn y flwyddyn 1699. Roedd Sikhiaeth eisoes yn 200 o flynyddoedd oed. Safai Guru Gobind Singh o flaen tyrfa fawr o Sikhiaid oedd wedi dod ynghyd yn Anandpur. Roedd wedi'i wisgo mewn tiwnig lliw oren, gyda thwrban am ei ben. Yn ei law roedd cleddyf mawr. Am dros bedwar deg o flynyddoedd roedd nifer fawr o bobl wedi dioddef dan reolaeth lem ymerawdwr India. Roedd tad Guru Gobind Singh, sef Guru Tegh Bahadur, wedi cael ei ddiennyddio am ei fod wedi protestio. Doedd y rhan fwyaf o bobl ddim mor ddewr â'i dad, roedd arnyn nhw ofn sefyll yn gadarn dros eu crefydd. Ond roedd yr amser wedi dod i'r Sikhiaid ddangos eu dewrder ac amddiffyn hawliau'r rhai oedd dan ormes. Hyd at farwolaeth os oedd rhaid.

'Wnaiff unrhyw un yma farw dros of fi?' gofynnodd Guru Gobind Singh. 'Pwy sy'n barod i brofi ei ffydd a chynnig ei ben i mi?'

Tawelwch llawn arswyd oedd yr unig ateb a gafodd. Ond yna daeth un Sikh dewr ymlaen ac aeth y ddau i mewn i'r babell. Mewn ychydig funudau daeth Guru Gobind Singh allan ar ei ben ei hun. Roedd ei gleddyf yn diferu o waed. Digwyddodd yr un peth gyda phedwar Sikh arall fu hefyd yn ddigon dewr i gynnig eu pennau.




Credai llawer o'r Sikhiaid fod eu guru wedi gwallgofi, ac fe aethon nhw adref. Ond fe gafodd yr ychydig rai a arhosodd syndod mawr pan welson nhw'r pum Sikh yn cerdded allan o'r babell mewn gwisgoedd gwyn glân. Roedden nhw'n fyw! Roedd y pum Sikh wedi profi eu dewrder a'u hymrwymiad i'w ffydd.

Perfformiodd Guru Gobind Singh seremoni amrit. Cafodd y pump dewr eu gwneud yn aelodau cyntaf y grŵp o'r enw Khalsa. Fe fydden nhw'n gwisgo gwisg arbennig fel y byddai pawb yn gwybod mai Sikhiaid oedden nhw. Fe fydden nhw'n barod i gynnig eu bywydau dros ryddid a chyfiawnder i bawb.'

Caeodd Sunita Kaur y llyfr gan wenu ar y plant.

'Heddiw, mae Sikhiaid yn dathlu Diwrnod Baisakhi,' meddai hi. 'Ond mae heddiw'n Ddiwrnod Baisakhi arbennig iawn i'n teulu ni.'



Eglurodd Sunita Kaur, ‘Mae gan Sanjit a Yasmin frawd hŷn o’r enw Ravi. Heddiw, fe fydd Ravi yn dod yn aelod o’r Khalsa. Mae Ravi yn credu ei fod yn barod i gyflwyno’i hun i’w ffydd fel y gwnaeth y pum Sikh yn 1699. Heddiw, mae sawl ffordd o amdiffyn ein cred heblaw â’r cleddyf.’

Yn ystod y seremoni gwylodd Rhys a Sara gleddyf deufin yn cael ei ddefnyddio i droi dŵr a siwgr mewn bowlen i wneud amrit. Yfodd Ravi beth o’r amrit a thafllwyd dafnau ohono am ei ben. Roedd Ravi’n addo gwisgo dillad arbennig a dilyn y pethau mae’r gurus yn ddweud.



Wedyn, dangosodd Ravi ei ddillad arbennig i Rhys a Sara.

‘Dyma’r pum K,’ eglurodd Ravi. ‘Mae pob un o’r pethau rydw i’n eu gwisgo yn dechrau â’r llythyren K mewn Pwnjabeg.’

Eglurodd Ravi, ‘Siorts yw Kachera, breichled fetel yw Kara, cleddyf yw Kirpan, gwallt heb ei dorri yw Kesh, a chrib yw Kangha. Mae’r pum K yn ein hatgoffa am y pethau rydyn ni’n credu ynddyn nhw ac am y ffordd y dylen ni ymddwyn. Maen nhw hefyd yn arwyddion i bobl eraill mai Sikhiaid ydyn ni.’



Pan gyrhaeddodd Rhys a Sara yn ôl i dŷ eu modryb, fe fuon nhw'n dweud yr hanes am eu diwrnod gyda Sanjit a Yasmin. Ar Ddiwrnod Baisakhi, mae Sikhiaid yn aml yn dewis ymaelodi â'r Khalsa. Mae hyn oherwydd mai ar Ddiwrnod Baisakhi, yn 1699, y sefydlwyd y Khalsa. Dydi bod yn Sikh Khalsa ddim yn beth hawdd. Rhaid i Sikhiaid Khalsa addo cyflwyno'u bywydau i Waheguru, ac amddiffyn yr hyn maen nhw'n ei gredu.





3 Arweinwyr

Roedd hi'n drydydd diwrnod gwyliau'r Pasg, ac roedd hi'n bwrw glaw. Awgrymodd Anti Hafwen y gallai Rhys a Sara wylïo ffilm gyda'u ffrindïau, Sanjit a Yasmin.

Ffilm oedd hon am daith teulu i wyltïr Awstralia. Gall gwylltïr Awstralia fod yn lle peryglus os na wyddoch chi beth rydych chi'n ei wneud, neu ble rydych chi'n mynd. Felly llogodd y teulu arweinydd. Rhoddodd yr arweinydd rybudd difrifol i bawb gadw gyda'i gilydd. Doedd arno ddim eisiau i neb fynd ar goll yn y gwylltïr.

Dechreuodd y daith yn dda. Cyflwynodd yr arweinydd bob math o anifeiliaid a phlanhigion anghyffredin i'r teulu. Fe wyddai beth oedd popeth a gwyddai sut i gael hyd iddyn nhw. Ond fe ddechreuodd pethau fynd o'u lle pan anghofiodd bachgen o'r enw Jac am rybudd yr arweinydd. Arhosodd Jac i edrych ar haid o forgrug yn ymdeithio ar hyd cangen coeden. Pan edrychodd o'i gwmpas, gwelodd ei fod ar ben ei hun ac ar goll. Doedd e ddim yn gwybod sut i fyw yn y gwylltïr ac fe wnaeth rai pethau ffôl a pheryglus. Diolch byth, fe ddaeth yr arweinydd o hyd iddo. Roedd yr arweinydd yn adnabod yr ardal mor dda.



Roedd y plant wedi mwynhau'r ffilm yn fawr.

'Dyna lwcus fod yr arweinydd yn arweinydd mor dda,' meddai Sara. 'Fel arall, mae'n debyg na fyddai neb byth wedi dod o hyd i Jac!'

Cytunodd Sanjit. 'Mae gan Sikhiaid arweinwyr hefyd, ac mae'r rhain yn bwysig iawn i ni. Rydyn ni'n eu galw'n gurus. Maen nhw'n debyg i'r arweinydd yn y ffilm. Mae'r gurus yn gwybod i ble maen nhw'n mynd ac yn gwybod sut i fynd yno. Maen nhw wedi bod ar y daith o'r blaen. Mae Duw, Waheguru, wedi anfon y gurus i'n harwain ni ar yr un daith.'

'Ble rydych chi'n mynd, felly? Pa daith yw hon?' holodd Rhys, oedd yn llawn diddordeb ond yn ddryslyd.

'Hon yw'r daith bwysicaf i bob Sikh. Y daith sy'n ein harwain ni at Dduw, Waheguru. Dewch adref gyda ni, ac fe ddangosa i luniau ein gurus i chi.'



Yn nhŷ Sanjit a Yasmin, gwelodd Rhys a Sara luniau dynion oedd yn edrych yn hynod o bwysig.

‘Er 1469, mae Duw, Waheguru, wedi anfon deg guru i’n harwain ni ar ein taith. Fe ddaeth pob un ohonyn nhw o’r Pwnjab, yng ngogledd India. Dyma lun y guru cyntaf, Guru Nanak,’ eglurodd Yasmin. ‘Fe ddysgodd y gurus ni i roi Duw, Waheguru, yng nghanol ein bywydau. Er mwyn ein helpu ni i wneud hyn, rydyn ni’n ailadrodd enw Waheguru drosodd a throsodd. Rydyn ni hefyd yn canu emynau am Waheguru. Mwyaf yn y byd rydyn ni’n meddwl am Waheguru, lleiaf yn y byd rydyn ni’n meddwl amdanom ein hunain. Dydyn ni ddim mor hunanol wedyn, ac rydyn ni’n dechrau helpu pobl eraill. Dyma’r daith sy’n ein harwain yn nes at Dduw, Waheguru.’


Chwiliodd Sanjit am lun y degfed guru, sef y guru olaf, Guru Gobind Singh.



‘Fe fu Guru Gobind Singh farw yn 1708,’ meddai Sanjit. ‘Ef oedd yr un wnaeth y Guru Granth Sahib, ein llyfr sanctaidd, yn arweinydd arnom ni. Hwnnw yw ein llyfr sanctaidd a’n guru hyd heddiw. Mae’n cynnwys llawer o emynau a cherddi’r deg guru. Fe welsoch chi’r llyfr hwnnw pan ddaethoch chi i’r gurdwara ychydig o ddyddiau’n ôl.’

‘Do, rydw i’n cofio’, meddai Sara. Roedd hi’n cofio gweld y llyfr yn gorffwys yn braf ar glustogau. Roedd yn cael ei drin yn union fel guru byw. ‘Rydw i’n gallu dychmygu sut y gallai guru byw eich arwain chi, ond nid guru llyfr,’ meddai Sara yn ddryslyd.

‘Mae’r llyfr yn cynnwys gair Waheguru,’ eglurodd Sanjit. ‘Rydyn ni’n gwranddo arno neu yn ei ddarllen. Rydyn ni’n meddwl beth mae’n ei olygu, a beth mae’n ei ddysgu i ni. Dyma sut y mae Waheguru yn ein harwain ni.’



Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, aeth Sanjit a Yasmin a Rhys a Sara i weld y Guru Granth Sahib yn y gurdwara. Fe fuon nhw'n gwylio gwraig yn agor y llyfr ac yn darllen rhan ohono.

'Os oes gennym ni broblem, neu efallai mai dim ond angen arweiniad ar gyfer y diwrnod sydd arnom ni, rydyn ni'n agor y llyfr ar hap. Rydyn ni'n darllen beth bynnag sydd ar ben y dudalen chwith,' meddai Yasmin. 'Dyma sut rydyn ni'n cael gwybod beth yw dymuniad Waheguru ar ein cyfer. Gwneud hukam yw hyn.'

Teimlai Rhys a Sara eu bod wedi dysgu llawer am eu ffrindiau newydd y pawns hwnnw. Trwy'r deg guru a'r llyfr o'r enw Guru Granth Sahib, mae Duw, Waheguru, yn eu harwain. Mae hyn yn eu helpu i wneud y penderfyniadau iawn, a rhoi pobl eraill yn gyntaf yn hytrach na nhw'u hunain. Mae hyn i gyd yn rhan o'r daith sy'n dod â nhw'n nes at Dduw, Waheguru.





4 Gofalu am y byd

Syllodd Rhys a Sara i fyny i'r duwch. Doedd dim i'w weld ond duwch, duwch, a rhagor o dduwch. Yn sydyn ffrwydrodd fflach o olau llachar tuag atyn nhw. Roedd y bydysawd wedi'i eni. Fe fuon nhw'n edrych mewn rhyfeddod ar filiynau o alaethau'n ffurfio. Yn y galaethau roedd miliynau o heuliau. Roedd gan rai o'r heuliau blanedau yn troi o'u cwmpas. Roedd gan rai o'r planedau leuadau yn troi o'u cwmpas.

Fe welson nhw'r blaned Daeare yn troi o gwmpas ei haul ei hun, ynghyd â'r planedau eraill. Roedd rhai o'r planedau yma'n gewri anferth, rhai eraill yn llawer llai. Roedd rhai yn hynod o boeth, eraill yn rhewllyd ac oer. Roedd y Ddaear yn hardd ac yn las gyda chymylau yn chwyldroi o'i chwmpas. Fel roedd hi'n troelli yn y gofod crëwyd nos a dydd. Ar yr ochr oedd yn wynebu'r haul roedd hi'n ddydd, ac ar yr ochr arall roedd hi'n nos. Roedd fel petai popeth yn gwybod yn union beth i'w wneud.

Daeth y golau ymlaen. Roedd y sioe ar ben. Cerddodd Rhys a Sara allan o'r planetariwm gyda'u ffrindiau, Sanjit a Yasmin.

'Mae'r bydysawd mor fawr ac rydw innau'n teimlo mor fach,' meddai Sara.

'Wel, dwyt ti ddim yn dal iawn,' meddai Rhys, gan chwerthin. 'Fe hoffwn i wybod sut y dechreuodd y cyfan. Sut gall yr holl bethau yna, yn cynnwys ni, ddod o ddim ond yr holl dduwch?'



Edrychodd Sanjit a Yasmin ar ei gilydd a gwenu.

‘Fe ddywedodd ein hathro a’n harweinydd cyntaf, Guru Nanak wrthym ni sut y dechreuodd y cyfan. Fe ddywedodd hyn dros 400 mlynedd yn ôl!’ meddai Sanjit. ‘Rydyn ni’n gallu darllen yr hanes yn ein llyfr sanctaidd, y Guru Granth Sahib. Mae’n dweud fod y bydysawd a phopeth sydd ynddo wedi’i greu trwy ewyllys Duw, Waheguru. Oddi wrth Waheguru y daeth y bydysawd cyfan. Felly mae popeth yn arbennig iawn.’

Ar eu ffordd adref arhosodd rhieni, Sanjit a Yasmin wrth y banciau ailgylchu poteli a phapur. Fe helpodd y plant nhw i roi’r papurau a’r poteli i gyd yn y banciau priodol.

‘Rydyn ni’n credu ei bod hi’n bwysig gofalu am y byd oherwydd ei fod yn perthyn i Waheguru,’ meddai Yasmin. ‘Mae ailgylchu pethau rydyn ni’n eu defnyddio yn helpu i wneud hyn.’



Ar ôl iddyn nhw gyrraedd y tŷ, fe aethon nhw i ystafell Sanjit i bori ar y we. Roedd Sanjit a Yasmin eisiau dangos rhai o'r pethau eraill y mae Sikhiaid yn eu gwneud er mwyn gofalu am fyd Waheguru.

'Rydyn ni'n rhannu amser yn gylchoedd 300 mlynedd,' eglurodd Sanjit. 'Am y 300 mlynedd diwethaf roedden ni'n byw yng nghylch y cleddyf. Fe ddigwyddodd llawer o bethau drwg iawn i Sikhiaid yn ystod yr amser hwnnw. Roedd yn rhaid iddyn nhw ymladd i amddiffyn gwirionedd a chyfiawnder. Ond nawr rydyn ni'n byw mewn cylch newydd. Cylch creadigaeth yw hwn. Mae hyn yn golygu fod rhaid i ni ofalu am y byd y mae Waheguru wedi'i greu.'

Gwelodd Rhys a Sara luniau o Sikhiaid yn plannu coed ac yn defnyddio ynni'r haul. Roedd Sikhiaid eraill yn ceisio arbed dŵr ac yn dysgu plant sut i ofalu am yr amgylchedd.



‘Mae’n weddol hawdd i ni ofalu am fyd Waheguru,’ meddai Yasmin. ‘Rydyn ni’n byw mewn gwlad gyfoethog. Rydyn ni hefyd yn dysgu am yr amgylchedd yn yr ysgol. Ond mae’r rhan fwyaf o’r byd yn dlawd iawn. Mewn llawer o’r gwledydd tlawd does dim posibilidod sefydlu prosiectau i warchod yr amgylchedd. Mae’n ddigon anodd iddyn nhw wneud dim ond byw. Mae’r Sikhiaid hyn yn credu y dylai gwledydd cyfoethog wneud beth bynnag allan nhw i helpu’r gwledydd tlotach.’

Diffoddodd Sanjit y cyfrifiadur. ‘Dewch ar fy ôl i,’ meddai. ‘Rydw i eisiau dangos rhywbeth i chi yn y parc.’

Yn y parc, safodd y pedwar plentyn ar lan y llyn. Roedd yn fin nos braf a’r awyr yn llonydd. Roedd dŵr y llyn fel drych. Roedd adlewyrchiad perffaith arno o’r coed a’r cymylau.



Cododd Sanjit garreg fechan a'i thaflu i'r llyn. Gwylodd y plant gylchoedd o grychdonnau'n lledu allan. Roedd y drych wedi torri. Diflannodd y coed a'r cymylau.

'Welsoch chi fel y gwnaeth y garreg un crych, a'r crych hwnnw'n achosi crych arall ac un arall?' gofynnodd Sanjit. 'Mae popeth wnawn ni fel hyn. Mae popeth wnawn ni yn effeithio ar bopeth arall. Os gwnawn ni ailgylchu papur neu helpu rhywun, rydyn ni'n gwneud crychdonnau da. Ond os byddwn ni'n anghofio rhoi sbwriel mewn bin, neu os byddwn ni'n gas wrth rywun, rydyn ni'n creu crychdonnau drwg. Efallai mai bychan ydyn ni, ond fe allwn ni wneud gwahaniaeth.'

Roedd Rhys a Sara wedi dysgu ychydig mwy am eu ffrindiau, Sanjit a Yasmin. Mae Sanjit a Yasmin yn credu fod Duw, Waheguru, wedi creu popeth yn y bydysawd. Mae'r byd yn arbennig iawn ac maen nhw eisiau edrych ar ei ôl.






5 Cegin Sikh

Roedd Rhys a Sara yn teimlo'n drist wrth bacio'u bagiau. Dyma ddiwrnod olaf eu gwyliau gyda Anti Hafwen. Roedd eu rhieni'n dod i'w nôl i fynd adref. Roedd Rhys a Sara wedi treulio'r rhan fwyaf o'r gwyliau gyda'u ffrindiau, Sanjit a Yasmin. Fe fyddai ganddyn nhw hiraeth am y ddau. Ond cyn mynd, roedd ganddyn nhw un peth arall i edrych ymlaen ato. Roedden nhw wedi trefnu i gwrdd â Sanjit a Yasmin i gael cinio arbennig yn eu gurdwara.

Dangosodd Sanjit a Yasmin gegin anferth y gurdwara i Rhys a Sara. Roedd pawb yno'n brysur yn gwneud rhywbeth. Roedd un wraig yn gwneud bara Chapati. A gwraig arall yn troi cyrri ffacbys a llysiau yn araf mewn sosban fawr ar y stôf. Roedd un dyn yn golchi'r llawr. A dyn arall yn golchi'r llestri.

'Mae nifer o bethau gwahanol i'w gwneud yn y gurdwara,' eglurodd Yasmin. 'Rydyn ni i gyd yn eu gwneud yn ein tro. Does dim gwahaniaeth pa mor bwysig ydych chi. Rhaid i bawb helpu a gwasanaethu pobl eraill.'

'Dim ond bwyd llysieuol rydyn ni'n ei goginio yma. Does dim llawer o Sikhiaid yn bwyta cig. Rydyn ni'n credu fod popeth byw yn arbennig am fod Duw, Waheguru, wedi eu creu. Dydi hi ddim yn iawn niweidio neu ladd anifeiliaid.'



Wedyn fe aethon nhw â Rhys a Sara i'r ystafell fwyta. Roedd yn llawn o bobl. Sylwodd Rhys a Sara doedd rhai o'r bobl ddim yn Sikhiaid.

'Fe all unrhyw un sydd eisiau bwyd ddod yma,' meddai Sanjit. 'Does dim gwahaniaeth ydyn nhw'n Sikhiaid ai peidio. Rydyn ni'n rhoi bwyd iddyn nhw.'

Eisteddodd y pedwar plentyn wrth un o'r byrddau hir yn ymyl rhieni Sanjit a Yasmin.

'Mae eistedd gyda'n gilydd a bwyta gyda'n gilydd fel hyn yn bwysig iawn i ni,' eglurodd Yasmin. 'Yn India y dechreuodd ein crefydd. Bryd hynny roedd llawer o'r bobl wedi eu rhannu'n wahanol grwpiau. Roedd rhai grwpiau yn meddwl eu bod yn well ac yn bwysicach na'r lleill. Roedden nhw'n gwrthod eistedd neu fwyta gyda neb oedd yn perthyn i grŵp is. Dywedodd ein hathro a'n harweinydd cyntaf, Guru Nanak, fod hynny'n annheg. Does neb yn bwysicach nag unrhyw un arall. Mae pawb yn gydradd am mai Duw, Waheguru, sydd wedi creu pob un.'



Roedd tad Sanjit a Yasmin wedi bod yn gwrando ar y sgwrs a nodiodd ei ben.

‘Dydi hi ddim yn ddigon credu yn unig fod pawb yn gydradd. Rhaid i chi ddangos eich bod chi’n credu hynny ym mhob peth rydych chi’n ei wneud,’ meddai. ‘Dyna pam rydyn ni’n eistedd ac yn bwyta gyda’n gilydd. Dyna pam rydyn ni hefyd yn cymryd ein tro i goginio, i lanhau, a golchi’r llestri yn y gurdwara. Mae Duw, Waheguru, eisiau i ni wasanaethu pobl eraill a’u helpu. Does dim gwahaniaeth pwy ydyn nhw.’

Meddyliodd Sara yn ofalus am beth roedd tad Sanjit a Yasmin wedi’i ddweud.

‘Mae grŵp o ferched yn yr ysgol sy’n meddwl eu bod nhw’n bwysicach na neb arall. Maen nhw i gyd yn gwisgo dillad ac esgidiau drud, rhai llawer gwell na beth sydd gan y plant eraill. Gyda’i gilydd maen nhw’n chwarae bob amser. Does neb arall yn cael ymuno â nhw.’



‘Mae hynny’n digwydd ym mhob man,’ cytunodd y tad. ‘Ond mae’n haws gweld hynny yn India. Edrychwch ar enwau pobl India. Yn India mae enw rhywun yn gallu dweud llawer wrthych chi amdano. Mae’n dangos pa fath o waith mae rhywun yn ei wneud. Ac fe allwch chi wedyn benderfynu os yw’r bobl rheini’n ddigon da i chi eistedd yn eu hymyl neu fwyta gyda nhw. Mae Sikhiaid yn credu fod hynny’n annheg. Felly, rydyn ni’n rhoi’r un enw olaf i bob merch. Ac mae’r un peth yn wir am y dynion. Rydyn ni’n galw’r merched yn Kaur, sy’n golygu “tywysoges”. Ac mae’r dynion yn cael eu galw’n Singh, sy’n golygu “llew”. Eto, mae hyn yn dangos ein bod i gyd yn gydradd, a does neb yn well nag unrhyw un arall. Rydyn ni i gyd yn bwysig.’

Ar ddiwedd y pryd bwyd, cliriodd Rhys a Sara y bwrdd a helpu i olchi’r llestri. Roedden nhw eisiau helpu hefyd.



Roedd Rhys a Sara yn falch eu bod wedi mynd i'r gurdwara i gael cinio. Roedd hyn wedi gwneud iddyn nhw feddwl am sut mae pobl yn trin ei gilydd. Roedd India'n swnio'n wahanol iawn i'r wlad roedden nhw'n byw ynddi. Ond efallai dydi pobl ddim mor wahanol â hynny. Mae'n hawdd meddwl fod rhai pobl yn well nag eraill. Weithiau mae hynny'n gallu gwneud pobl yn annheg a chas.

Wrth i Rhys a Sara deithio'n ôl adref, fe wnaethon nhw benderfynu y bydden nhw'n rhannu rhai o'u pethau arbennig nhw â Sanjit a Yasmin. Efallai y byddai'n bosib iddyn nhw wneud hynny yr haf nesaf pan fyddan nhw'n mynd i aros gyda Anti Hafwen eto.



Mae hi'n wyliau'r Pasg, ac mae Rhys a Sara yn aros gyda Anti Hafwen yn y Ddinas. Yn dilyn galwad ffôn un noson, mae dau ffrind iddyn nhw, Sanjit a Yasmin, sy'n Sikhiaid yn mynd â Rhys a Sara i gwrdd ag athro ac arweinydd pwysig iawn o'r enw Guru Granth Sahib. Ond, dydi'r guru ddim yn union yr hyn yr oedd Rhys a Sara yn ei ddisgwyl!

Yn ystod y pedwar diwrnod canlynol, caiff Rhys a Sara eu denu ymhellach i fyd diddorol Sikhiaeth – byd sy'n ymdrechu i gael gwirionedd, cyfiawnder, a thegwch i bawb.

